

Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector Y Trydydd Sector ac Ewrop

13 Chwefror 2017
Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd

Cyflwyniad

Amelia John, Pennaeth yr Is-Adran Gymunedau, Llywodraeth Cymru a Ruth Marks, Prif Weithredwr, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

Agorodd Amelia y sesiwn, gan gyfeirio at y ffaith fod yr egwyddor cynnwys yn un o'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r rôl hanfodol i'r trydydd sector i helpu'r llywodraeth i gynnwys dinasyddion mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Disgrifiodd Ruth ganlyniadau anfwriadol Brexit y mae ein cymunedau wedi'u teimlo, gan dynnu sylw at y rôl bwysig i fudiadau trydydd sector i arwain mewn modd cadarn a phositif, gan weithio'n rhagweithiol ar y rheng flaen, ac amlygu perthnasedd i'r trafodaethau ym maes polisi ynglŷn â meithrin cymunedau cryf.

Cyflwyniadau gan rwydweithiau trydydd sector

Yr effaith ar gyngor ac eiriolaeth yn sgil y refferendwm
Fran Targett, Cyngor ar Bopeth Cymru



Mae'r sector gwybodaeth a chyngor mewn sefyllfa unigryw i ddirnad y materion y mae pobl yn eu hwynebu ac yn pryderu yn eu cylch. Ers y Refferendwm ym mis Mehefin 2016, mae 30% o gynnydd wedi bod mewn gwahaniaethu a 28% o gynnydd mewn troseddau casineb. Hefyd bu cynnydd sydyn mewn materion ynglŷn â mewnfudo ar ôl Mehefin, yn bennaf gan ymfudwyr o'r Undeb Ewropeaidd yn ymholi ynghylch eu statws.

Mae Brexit wedi achosi ansicrwydd a bydd yn parhau i wneud hynny e.e. ynghylch statws; mae hyn yn arwain at berygl sgambiau a'r potensial i bobl gael eu cam-drin. Mae yna hefyd oblygiadau ym maes polisi o ran budd-daliadau, tai a dyled e.e. hawliau mynediad, hawliau cyflogaeth, hawliau dynol.

Yr ymholiadau sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf yw'r rheini ynghylch dinasyddiaeth genedlaethol a chymhwyso ac ymgeisio am statws mewnfudo a statws cheisiwr lloches, yn

ogystal ag ymholiadau ynghylch hawliau yn y Deyrnas Unedig, a chofrestru ar gyfer dinasyddio, aflonyddu hiliol a cham-drin geiriol.

Mae Cyngor ar Bopeth wedi ymateb drwy ddarparu gwybodaeth ynglŷn â Brexit a'r ffordd y mae'n effeithio arnoch chi, gan bwysleisio nad oes dim wedi newid hyd nes y mae deddfau newydd wedi'u creu. Mae gan y trydydd sector rôl i'w chwarae i fonitro newidiadau mewn deddfwriaeth.

Mae diwygio lles, PIP, ESA ac effeithiau ar amgylchiadau ariannol - e.e. digartrefedd - yn parhau'n faterion dybryd. Mae angen rhoi ystyriaeth i'r ffordd y mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar bobl a defnyddwyr: dyna'r hyn sy'n bwysig.

Effaith y refferendwm ar blant a phobl ifanc Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn ehangach *Rocio Cifuentes, Tim Cymorth Ieuencid Ethnig (EYST ac aelod o CWVYS)*



Yn ôl Cyfrifiad 2011 Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yw 6% o boblogaeth Cymru, gyda chrynoadau yng Nghaerdydd, Abertawe a Wrecsam. Mae yna gymysgedd o gymunedau sydd wedi bod yma ers cenedlaethau a chymunedau mwy newydd e.e. ymfudwyr o'r UE, a thon newydd o ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae'r boblogaeth Ddu a Lleiafrifol Ethnig yn ifanc gan mwyaf - e.e. yng Nghaerdydd mae 25% o boblogaeth oedran ysgol yn blant a phobl ifanc Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae gan Gymru hunaniaeth hirsefydlog o groesawu a chynnwys, sydd wedi'i herio gan Brexit. Methodd yr ymgyrch Gadael ag ateb pryderon pleidleiswyr ynghylch mewnfudo.

Roedd yna wahaniaeth amlwg rhwng y ffordd y pleidleisiodd pobl ifanc a'r ffordd y pleidleisiodd pobl dros 65 oed, gan arwain at gwestiynau ynghylch a yw'r broses sy'n cael ei rhoi ar waith yn deg, gan na chafodd gefnogaeth pobl ifanc.

Dyma'r effaith y mae Brexit wedi'i chael ar bobl ifanc Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig:

- Ansicrwydd a ydynt yn cael arddel hunaniaeth Gymreig.
- Digwyddiadau yn cael eu hadrodd yn eang a'u chwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol - gan effeithio ar y ffordd y mae pobl ifanc yn teimlo.
- Activists against Xenocide (prosiect ledled yr UE) - sy'n cipio'r ffordd y mae Brexit wedi effeithio ar yr ymdeimlad o berthyn.

Symptom yw Brexit, yn hytrach nag achos: mae teimladau gwrth-fewnfudo a gwrth-Fwslimaidd wedi bod yn tyfu'n raddol ers 9/11; mae hyn wedi diffinio'r ffordd y mae pobl ifanc, sydd wedi'u geni ar ôl 9/11, yn teimlo amdanynt eu hunain a'u diwylliant. Mae yna ddiffyg dadl wedi bod yn erbyn canfyddiadau ynghylch Mwslimiaid a cheiswyr lloches a

theimlad cyffredinol nad oes digon o fuddsoddi wedi bod mewn hiliaeth, crefydd a ffoaduriaid wrth addysgu pobl ifanc a'r gweithlu addysg.

Mae angen mynd i'r afael ar unwaith ac yn rhagweithiol â syniadau perygl, yn enwedig yn y cyfryngau. I sicrhau bod ein cymunedau yn gallu gwrthsefyll eithafiaeth, mae angen i ni fuddsoddi mewn addysgu ein pobl ifanc - mae yna gyfleoedd ar gael drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a datblygiad y cwricwlwm newydd.

Anerchiad, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, Carl Sargeant AC



Janine Downing
@JanineDowning

Follow

@wgcs_community Wales has the tools to create more resilient communities, the 3rd sector is needed to help it work on the ground #TSPCCymru

11:30 AM - 13 Feb 2017

← ↻ 4 ❤️ 1

Mae gan Gymru gyfle ardderchog, gyda deddfwriaeth sy'n torri tir newydd: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - yr her yw gwneud i'r offer hyn weithio'n effeithiol ar lawr gwlad ac ni all y llywodraeth fynd i'r afael â hyn ar ei phen ei hun.

Mae siâp cymunedau ledled Ewrop yn newid; ac mae angen i ni feithrin ein cryfder oddi mewn. Mae adroddiadau o droseddau casineb ar gynnydd a rhaid wynebu'r materion hyn yn uniongyrchol - mae gan wleidyddion a'r wasg ran allweddol i'w chwarae. Bydd yr Ysgrifennydd Cabinet yn gwneud datganiad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yfory (14 Chwefror) ynghylch cymunedau cryf.

Cwestiynau rhwydweithiau Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

Mair Rigby (rhwydwaith rhywedd): a all yr Ysgrifennydd Cabinet wneud sylw ar sut rydych yn gweld cydraddoldeb rhywiol a chydraddoldeb ac amrywiaeth yn gyffredinol yn ffitio yn yr agenda cymunedau cryf?

Mae cydraddoldeb wrth wraidd yr agenda hon. Mae angen i ni ailfeddwl yn radical am y ffordd rydym yn mynd i'r afael â thlodi; mae angen i ni wneud mwy. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi herio ei dîm i edrych ar brosesau Llywodraeth Cymru - e.e. asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, asesiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - ac mae'n credu y dylid seilio ymyriadau polisi ar yr egwyddorion hyn fel man cychwyn, yn hytrach nag ôl-gynhyrchu'r polisi i gyd-fynd â'r fframwaith asesu.

Catriona Williams (Plant a theuluoedd): yng nghanol toriadau ariannol ac ansicrwydd, beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau nad yw llywodraeth leol a Byrddau Iechyd Lleol yn torri gweithgaredd y trydydd sector yn anghymesur? Mae ymyrraeth gynnar, atal a llais y dinesydd yn egwyddorion canolog yn y ddeddfwriaeth newydd.



Buddsoddi mewn pobl ifanc yw'r peth cywir i'r sector cyhoeddus ei wneud, yn foesegol ac yn ariannol. Dau faes canolog i'r Is-adran Cymunedau a Phlant yw llewyrch economaidd a llesiant, ar yr un pryd. Rhaid i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) gynllunio ar gyfer llesiant cymunedau; mae yna le amlwg i'r trydydd sector ddarparu yma, lle na all gwasanaethau cyhoeddus. Disgwylir penderfyniadau anodd pellach ynghylch cyllid o ran y ffordd rydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni i ysgogi newid.

John Puzey (Cartrefi i Bawb Cymru): Mae'r Ysgrifennydd Cabinet am i ddarparwyr tai cymdeithasol, llety â chymorth a chymorth cysylltiedig â thai i helpu tenantiaid/defnyddwyr gwasanaethau i gymryd rhan mewn rhaglenni Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, ac mae'n gywir ei fod eisiau hynny. Ond tra mae'r sector yn awyddus i gymryd rhan, mae yna bryderon y bydd yna lai o ddarpariaeth ar gael ar ôl Brexit i wneud hyn yn bosib. Y cwestiwn yw, sut y gall y sector fynd i'r afael â blaenoriaethau Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth pan fo'r cynlluniau a ariennir gan yr UE wedi mynd?

Mae'n amhosib cynllunio ar sylfaen gadarn ynghylch ôl-lenwi ymyriadau a ariennir gan yr UE, gan fod yna gymaint nad ydym yn ei wybod o hyd. Mae'r sector tai yn ystwyth ac yn dda am wneud pethau mewn ffordd wahanol; ond mae'n aneglur i'r Ysgrifennydd Cabinet a yw'r model 'tai a mwy' yn effeithiol.

Barbara Natasegara (Cyfiawnder Cymunedol Cymru): O fewn yr amgylchedd comisiynu yng Nghymru, amgylchedd sy'n newid - Brexit, rhanbartholi, ailgomisiynu lleol - ym mha ffordd y bydd yr Ysgrifennydd Cabinet yn sicrhau bod holl Wasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gan y Trydydd Sector yn cael eu gwarchod a'u bod yn

gallu parhau i ddarparu gwasanaethau i holl ddiodefwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yn enwedig yn sgil arian Llywodraeth Cymru a roddir ar waith drwy Awdurdodau Lleol?

Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet fod hwn yn gwestiwn pwysig gan fod Llywodraeth Cymru wedi deddfu yn y maes hwn. Mae angen ystyried pa wasanaethau sy'n gweithio'n dda, ble a pha wasanaethau sydd eu hangen. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn gweithio gyda'r Gweithgor Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig i adolygu mecanweithiau cyllido.

Maria Mesa (Women Connect First): Ym mha ffordd y bydd Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector yn cydweithio ar Brexit ar y sefyllfa sy'n gwaethygu i gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig? Mae'r sector Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig wedi cael ei grebachu; presenoldeb cynrychiolwyr Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig mewn gwasanaethau cyhoeddus - e.e. Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yw 20% o boblogaeth Caerdydd, ac eto mae gweithlu Cyngor Caerdydd yn cynrychioli 4%.

Mae'r ddealltwriaeth o ffoaduriaid, ceiswyr lloches a chrefydd yn isel iawn yn gyffredinol ac mae addysg yn hanfodol - i bob oed. Mynegodd yr Ysgrifennydd Cabinet rwystredigaeth ynghylch diffyg amrywiaeth mewn cyrff a byrddau cyhoeddus. Cyfeiriodd at y Ddeddf Cynllunio, sy'n cynnwys gofyniad i sicrhau cydbwysedd rhywiol ar Fyrddau ar gyfer pwyllgorau cynllunio rhanbarthol.

Sheila Hendrickson-Brown (C3SC, yn cynrychioli Cymdeithas Cynghorau Gwirfoddol Sirol Cymru): Beth fydd y trefniadau i olynu Cymunedau yn Gyntaf; ac ym mha ffordd y gallwn gynnwys llais y gymuned yn y trefniadau newydd?

Mae angen creu cysylltiadau rhwng rhaglenni sydd eisoes yn bodoli er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y bobl sydd angen y gwasanaethau fwyaf. Mae dros £300m wedi'i fuddsoddi yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ac mae ystadegau tlodi yn dal i fod yn uchel. Mae tystiolaeth lechyd Cyhoeddus Cymru ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn dangos effeithiau dramatig profiadau o'r fath. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi prawf ar waith dwys yn y Fflint, yn mapio profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ac yn trin ac yn cefnogi pobl ifanc i fynd i'r afael â'r materion hynny, yn hytrach nag aildroseddu. O ganlyniad, dyw 19 o'r 20 aildroseddwr mynychaf yn y Gogledd ddim wedi aildroseddu. Os yw'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ac asesiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu gwneud mewn ffordd briodol, wrth wraidd y broses, mae newid yn bosib. Cyhoeddir rhagor o fanylion yn y datganiad yfory (14 Chwefror).

Cyflwyniad ar y Broses Bontio o'r UE

Desmond Clifford, Cyfarwyddwr Swyddfa Prif Weinidog Cymru



 **WCIA**
@WCIA_Wales

 Follow

EU migration is positive & Wales will still need migrant workers
post #Brexit - Desmond Clifford, director of @fmwales office.
#TSPCCymru

12:23 PM - 13 Feb 2017 · The Pierhead

  6  7

Mae Whitehall yn defnyddio'r gair 'ymadawiad - exit' o'r UE, tra mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar 'bontio' o un math o berthynas â'r UE at un arall â chydweithwyr, cyfeillion a chydweithredwyr yn yr UE. Safbwynt Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod y telerau a'r amodau mor fanteisiol â phosib i Gymru.

Mae'r UE y byddwn yn ei adael yn wahanol iawn i'r un yr ymunodd y DU ag ef yn 1973, ac mae'r DU yn genedl wahanol, gan gynnwys o ganlyniad i ddatganoli - gan effeithio ar bolisi cyhoeddus a mecanweithiau cyllido. O ganlyniad nid yw'n bosib dychwelyd i status quo 1973.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu [Papur Gwyn, Diogelu Dyfodol Cymru](#), sy'n amlinellu'r prif feysydd o ddiddordeb i ni:

- **Y Farchnad Sengl** - po agosaf rydym yn aros at y Farchnad Sengl, gorau oll y byddwn ni; mae Cymru yn galw am 'fynediad dirwystr' at y Farchnad Sengl (e.e. tariffau mewnforio/allforio)
- **Mudo o'r UE** - mae Llywodraeth Cymru yn bositif iawn tuag at fudo. Mae'r Papur Gwyn yn nodi'r ffeithiau - e.e. llai na 70,000 o fudwyr o'r UE yn gweithio yng Nghymru ac maent ar gyfartaledd yn fwy tebygol o fod mewn gwaith, na bod heb waith a chyfrannu at ein heconomi. Rhagwelir parhad yn yr angen am fudwyr i lenwi bylchau mewn sgiliau a galwadau mewn sectorau penodol ac anghenion cyflogaeth hirdymor ein heconomi. Cred Llywodraeth Cymru y dylai dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd gael eu cefnogi'n gyfreithiol i aros yma.
- **Model Cyllid yr UE** - mae Llywodraeth Cymru yn ffafrio'r dull hwn gan ei fod yn ystyried angen, nid poblogaeth yn unig. Mae Cymru yn defnyddio tua £680m o gyllid yr UE y flwyddyn drwy e.e. Cronfeydd Strwythurol, Rhaglenni Datblygu Gwledig, Horizon 2020 a chronfeydd llai eraill o arian. Mae cyllid wedi'i sicrhau, fwy neu lai, tan 2020, hyd yn oed os yw'r DU yn gadael yr UE cyn hynny. Mae angen i Grant Bloc Cymru wneud iawn am y cyllid y bydd Cymru yn ei gollu; dylai Llywodraeth y DU allu cefnogi hyn o ganlyniad i

beidio â gorfod talu £12bn i'r UE y flwyddyn. Byddai hyn yn ein galluogi i barhau â datblygiadau amaethyddol a rhanbarthol.

- **Effaith gadael yr UE ar ddatganoli yng Nghymru** - disgwylir y bydd llywodraethu ar lefel yr UE yn cael ei ddiddymu yn 2019, ac y bydd cymhwysedd cyfreithiol yn dychwelyd i'r DU. Bydd gan rai meysydd o gymhwysedd deddfwriaethol yr UE ddimensiwn Cymreig a bydd ar Gymru angen deialog agored â llywodraeth y DU ynghylch y fframwaith deddfwriaethol/rheoleiddiol a geir o ganlyniad. Bydd hefyd angen llunio system Cymorth Gwladwriaethol mewn modd cyson ar draws Cenhedloedd y DU.
- **Gwerthoedd** - mae corff sylweddol o ddeddfwriaeth yr UE wedi cael effaith bositif ar ehangu cydraddoldebau, hawliau dynol a deddfwriaeth amgylcheddol. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddorion hyn, ac yn credu na ddylai ymadawiad y DU o'r UE effeithio'n negyddol ar ddeddfwriaeth flaengar.
- **Pontio** - mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn tanio Erthygl 50 erbyn diwedd mis Mawrth 2017. Hyd yma, ni wyddem lawer ynghylch y ffordd y bydd yr UE yn mynd ati i gynnal y trafodaethau. Mae etholiadau ar y gweill eleni mewn Aelod-wladwriaethau allweddol yn yr UE - Ffrainc, yr Almaen, yr Iseldiroedd. Bydd hyn yn effeithio ar y trafodaethau. Mae angen i ni ystyried pa fath o wlad rydym eisiau bod, ac y gallwn fod, y tu allan i'r UE. Sut ydym yn parhau i fod yn ddinasyddion UE da? Bydd angen i ni weithio'n galetach i weithio gyda'n cymdogion Ewropeaidd - sut ydym yn sicrhau adnoddau ar gyfer hyn, ayyb.

Dechrau'r deialog yw hyn, gydag atebion yn dod i'r golwg dros y pum mlynedd nesaf.

Safbwynt o Frwsel ar y Broses Bontio o'r UE

Jana Hainsworth, Llywydd, Platfform Cyrff Anllywodraethol Cymdeithasol Ewrop ac Ysgrifennydd Cyffredinol Eurochild

Eglurodd Jana ei rôl fel Ysgrifennydd Cyffredinol Eurochild, yn ogystal â Llywydd Llwyfan Cyrff Anllywodraethol Cymdeithasol Ewrop, rhwydwaith o [48 o rwydweithiau yn yr UE](#) sydd ar waith mewn gwahanol feysydd thematig.

O ganlyniad i'r argyfwng mudo, argyfwng Dyled Gwlad Groeg a therfysgaeth, mae llywodraethau cenedlaethol wedi mynd â hawliau dynol ac egwyddorion ein democratiaeth am yn ôl, gan roi cyfle i wleidyddiaeth hunaniaeth chwarae rôl ddinistriol mewn gwleidyddiaeth ofn.



Sandra Clubb
@tywodyd



'Voices of young people more important than ever given the generational divide in the #brexit vote' @JanaHainsworth @eurochild #TSPCCymru

1:03 PM - 13 Feb 2017 - Cardiff, Wales

👍 9 ❤️ 7

Mae gallu'r UE i addasu ac ymateb i'r mathau hyn o newidiadau yn cael ei brofi - e.e. yr etholiadau sydd ar y gweill yn yr Iseldiroedd, Ffrainc a'r Almaen.

O ran ymadawiad y DU o'r Undeb, bydd ar yr UE eisiau dangos ei fod yn negodydd caled i warchod buddiannau'r 27 Aelod-wladwriaeth sy'n weddill, a chyflwyno bloc cadarn, unedig o aelodau.

Cynhelir y trafodaethau drwy'r Comisiwn Ewropeaidd, felly, ni fydd Aelod-wladwriaethau o amgylch y bwrdd. Bydd gan Senedd yr UE fynediad at y wybodaeth i gyd ynglŷn â'r trafodaethau (ni fydd gan Aelod-wladwriaethau hynny) a bydd ganddi'r hawl i bleidleisio - pwynt dylanwadu pwysig i gymdeithas sifil. Rhaid ystyried effaith colli cyfraniad ariannol Llywodraeth y DU, sef £12bn, a beth mae'n ei olygu i gyllideb yr UE.

Mae disgwyl i drafodaethau ddechrau ym mis Mehefin - Hydref 2018, gydag amser i'r Cyngor a'r Senedd Ewropeaidd bleidleisio. Mae'n bosib y bydd angen cytundeb pontio UE.

Mae'r UE wedi annog a hwyluso cyfnewid arfer da er mwyn hyrwyddo dulliau blaengar - e.e. beth sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â thlodi plant ac allgáu cymdeithasol - ac o ganlyniad crëwyd cynghrair yn y DU ar fuddsoddi mewn plant. Y gobaith yw y bydd Llywodraeth y DU yn cefnogi parhad y sianeli cyfathrebu hynny. Mae gan EuroChild aelodau o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, ond gall fod yn anodd i'r UE ariannu'r gweithgaredd hwnnw.

Mae rhwydweithiau cyrff anllywodraethol ledled yr UE yn gweithio gydag aelodau yn y DU i sicrhau bod y ddeddfwriaeth flaengar yn cael ei chadw. Bydd gan rhwydweithiau cymdeithas sifil yng Nghymru fudiadau cyfatebol mewn rhwydweithiau yn yr UE a all gynorthwyo'r broses bontio. Gweler y [rhestr o aelodau o'r Llywyfan Cymdeithasol](#).

Mae yna bosibilrwydd i'r DU barhau i gymryd rhan yn Horizon 2020 ac Erasmus+ a fyddai'n golygu effeithiau positif ehangach ar Aelod-wladwriaethau'r UE, a dylid annog y parhad hwn.

Mae buddsoddi mewn cyfleoedd i addysgu pobl ifanc, i ymgysylltu ac i ddadlau yn hanfodol. Mae'r angen i ysgogi dinasyddion i chwarae mwy o ran ac i herio siarad negyddol yn gyfle. Mae angen arweinyddiaeth gryf gan gymdeithas sifil a llywodraeth.

Mae aelodau o'r Llwyfan Cymdeithasol a chyrrff anllywodraethol yr UE wedi ymrwymo i barhau i drafod â phartneriaid yn y DU yn ystod y broses bontio hon.

Grwpiau Trafod

Gofynnwyd i grwpiau trafod thematig ystyried saith cwestiwn safonol:

1. *Beth yw prif bryderon eich rhwydweithiau a defnyddwyr eu gwasanaethau ynghylch gadael yr Undeb Ewropeaidd?*
2. *Beth yw'r goblygiadau i'ch rhwydweithiau pe bai'r DU yn gadael y farchnad sengl?*
3. *Beth yw'r goblygiadau i'ch rhwydweithiau pe bai'r trefniadau o ran rhyddid pobl i symud yn newid?*
4. *Ym mha ffordd y byddai trefniadau mudo sy'n cysylltu mudo â swyddi yn effeithio ar fudiadau'ch rhwydweithiau?*
5. *Pa mor bwysig yw hi i'ch rhwydweithiau nad yw Cymru yn colli cyllid o ganlyniad i adael yr UE?*
6. *Pa fesurau diogelu cymdeithasol ac amgylcheddol y mae'ch rhwydweithiau yn eu gwerthfawrogi fwyaf?*
7. *Beth yw manteision gadael yr UE i'ch rhwydweithiau?*

Mae'r pwyntiau canlynol yn crynhoi'r materion a godwyd yn y trafodaethau ac nid yw unrhyw ffigyrau wedi cael eu gwirio ac maent yn cynrychioli barn yr unigolion.

Llesiant yng Nghymru, goblygiadau i'r amgylchedd, chwaraeon, y celfyddydau a gwirfoddoli

- O ganlyniad i drosglwyddo deddfwriaeth yr UE i gyfraith y DU mae'n bosib y bydd mesurau diogelu amgylcheddol yn gwanhau neu na fyddant yn cael eu diweddarau. Perygl o golli atebolrwydd am fynd yn groes i ddeddfwriaeth.
- Mae chwaraeon yn cael lefel uchel o gyllid gan yr UE ac ar hyn o bryd yn arbed £63m i'r Gwasanaeth Iechyd drwy atal gordewdra, iechyd meddwl a llesiant.
- Mae yna rôl i WCVA i arddangos yr effaith y mae'r sector yn ei chael, mae angen mwy o adnoddau ar gyfer pethau fel Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad.
- Mae'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth amgylcheddol bresennol yn deillio o'r EU ac mae'r cyfan yn hanfodol bwysig. Ansawdd Aer, y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ayyb.
- Y gyfarwyddeb oriau gwaith - allweddol i iechyd a llesiant. Mae'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth yr UE yn canolbwyntio ar bethau sy'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn helpu i ofalu am iechyd a llesiant e.e. y gyfarwyddeb oriau gwaith, Tâl gwyliau, Tâl Mamolaeth Statudol ayyb. Beth fydd yr effaith ar yr hawliau hyn?
- Byddai gadael y farchnad sengl yn golygu newidiadau mewn tariffau amgylcheddol i ffermwyr. Gallai hyn arwain at bobl yn rhoi'r gorau i'w ffermydd a'u gadael yn segur, sydd â goblygiadau economaidd ac amgylcheddol.
- Rhaid i wirfoddolwyr o bob rhan o'r byd ddod i ddigwyddiadau chwaraeon mawrion a gynhelir yng Nghymru - e.e. rowndiau terfynol cynghrair y pencampwyr. Gallai Brexit rwystro'r gallu i wneud hynny ac arwain at golli cyfnewid diwylliannol.

- Mae Llywodraeth Cymru yn trafod cynnig yn seiliedig ar fudwyr economaidd yn hytrach na mudwyr o'r UE a allai arwain at golli cyfnewid diwylliannol gwerthfawr a gafwyd o'r blaen drwy gynnal gwirfoddolwyr rhyngwladol.
- Dylai cyllid Llywodraeth Cymru wobrwyo llwyddiant, cydweithio ac integreiddio, i sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posib.
- Mae Brexit yn cynnig y cyfle i ffurfio Polisi Amaethyddol Cyffredin o'r newydd - sy'n cynnig polisi i reoli tir mewn ffordd wirioneddol gynaliadwy.
- Mae'n bosib y bydd gallu'r trydydd sector i ymgysylltu/dylanwadu yn cynyddu os yw polisi yn fwy lleol.
- Ni nodwyd unrhyw fanteision o ran y celfyddydau, chwaraeon a gwirfoddoli yn benodol.

Diogelwch a chydlyniant cymunedol gan ganolbwyntio ar droseddau casineb a chhydraddoldeb ac amrywiaeth

- Mae'r cynnydd mewn troseddau casineb yn niweidio cydlyniant cymunedol. Mae hyn yn effeithio ar blant mewn ysgolion, sy'n cael cwestiynau fel 'pa mor hir mae dy rieni wedi bod yma?' Mae troseddau casineb yn dal i ddigwydd heb gael eu hadrodd.
- Mae pobl yn teimlo eu bod wedi cael caniatâd i ddweud yr annywedadwy.
- Mae menywod Mwslimaidd a mudwyr o'r UE yn cael eu targedu. Mae pobl yn cael eu cam-drin yn y gweithle yn ogystal ag yn y gymuned.
- Mae yna effaith emosiynol a chorfforol ar bobl, sy'n teimlo nad ydynt mwyach yn perthyn. Mae eu hunaniaeth fel Cymry yn cael ei chwestiynu.
- Mae yna raniadau cymdeithasol rhwng pleidleiswyr, rhaniadau mewn dosbarth. Ond wrth gondemnio rhaid peidio â difriio pobl a rhaid bod yn ofalus i beidio ag ehangu rhaniadau. Mae pobl yn chwilio am fychod dihangol.
- Mae yna berygl y bydd tlodi yn cynyddu pe bai buddsoddiad yn gadael Cymru, gyda chanlyniadau anfwriadol mewn perthynas â swyddi.
- Mae yna anhawster i'r prifysgolion o ran incwm a llafur - maent yn gyflogwr mawr. Byddant yn recriwtio o wledydd ymhellach i ffwrdd na'r UE.
- Bydd yna effaith ar wasanaethau ieched a'r sector gofal.
- Bydd yna gostau i gyflogwyr mewn biwrocratiaeth.
- Bydd cyfleoedd i bobl ifanc yn lleihau - e.e. ERASMUS. Dylai cyllid ar gyfer rhaglenni cyfnewid gael ei ddiogelu.
- Mae straeon y bobl y gofynnwyd iddynt ddod i'r DU yn bwysig - mae gan bobl gof byr. A oes rôl i'r trydydd sector roi llais i'r straeon hyn?
- Dylid ehangu'r ddadl ynghylch mudo. Mae yna gamargraff fod cymdeithas yn fonocrom cyn i fudwyr gyrraedd ac mae angen gwrthsefyll y dymuniad i adfer y canfyddiad anghywir hwnnw o'r gorffennol.
- Mae yna dybiaeth mai'r broblem yw gwneud iddyn 'nhw' fod fel 'ni', ond mae cymdeithasau bob amser wedi bod yn amrywiol. Mae allgáu yn arwain at un canlyniad. Mae angen neges bositif ynghylch mudo.
- Beth yw rôl y cyfryngau? A oes rôl i'r trydydd sector addysgu'r wasg?
- Awgrym i glywed mwy gan Saeson, Gwyddelod, Albanwyr sydd wedi symud i Gymru - maent yn fudwyr i Gymru. Byddai'n helpu i newid yr iaith.
- Effaith masnachu pobl yn anodd ei holrhain. Gall gadael yr UE ei gwneud yn anos rhannu gwybodaeth. Gallai masnachu pobl gynyddu os oes 'angen' llafur gorfodol ar ôl gadael.
- Mae'r heddlu yn ymateb i droseddau casineb, yn hytrach na'u hatal. Mynegwyd y gred bod y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar gyfer Troseddau Casineb yn canolbwyntio'n llai ar addysg ynghylch y materion ac atal bwlio.

- Ni wyddem beth yw'r cyfleoedd, a ninnau wedi bod yn yr UE ers cyhyd.
- Mae yna botensial i'r sector siapio'r agenda wrth i bethau fynd yn eu blaenau.
- Dyfynnwyd ffigwr - byddai 55% o Ewropeaid yn pleidleisio dros rywbeth tebyg i waharddiad Mwslimaidd America - mae'r teimladau yno.

Plant a Phobl Ifanc

- Pryderon ynghylch diffyg cyfleoedd am gyllid, i ariannu prosiectau sy'n creu cyfleoedd i bobl ifanc deithio, dysgu, gweithio a gwirfoddoli dramor ee Horizon, Erasmus +, Cronfa Gymdeithasol Ewrop.
- Diffyg cyllid yn arwain at gulhau gorwelion, gan roi pobl ifanc mewn perygl o golli profiadau diwylliannol.
- Mae cyfleoedd i bobl ifanc astudio yng ngwledydd yr UE eisoes yn cael eu cyfyngu ac mae llawer yn edrych i leoedd eraill ee yr Unol Daleithiau. Beth fydd rôl safonau PISA wrth i bethau symud yn eu blaenau.
- Bydd y newid yn y rhyddid i symud yn effeithio ar gyflogaeth - rhai setiau sgiliau ddim ar gael yn y DU. A fydd pobl eisiau gweithio yma os nad yw'r DU yn rhan o'r UE?
- Mae'r cwricwlwm newydd yn edrych ar ddatblygu dinasyddion byd-eang. Sut y gwneir hyn ar ôl Brexit? A yw hyn yn gyfle i ni edrych ar fwy o gyllid rhyngwladol?
- Teimlad bod yr UE yn fwy ymatebol i anghenion pobl ifanc na'r DU yn enwedig o ran sgiliau iaith.
- Mae Brexit wedi golygu bod mwy o bobl wedi dechrau ymwneud â gwleidyddiaeth - ym mha ffordd y gallwn rymuso ymarferwyr i hwyluso sgysiau effeithiol â phobl ifanc - mae angen rhagor o wybodaeth a sgiliau i gael trafodaeth wybodus. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cynnig cyfle i bobl ifanc ymateb i bethau sy'n digwydd.
- Cydnabod y rhaniad rhwng y cenedlaethau ynghylch yr UE. Mae llawer o bobl ifanc wedi tyfu fyny yn perthyn i'r UE ac felly angen gwybod nawr 'ble mae fy lle yn y byd'.
- Ym mha ffordd y gallwn gadw darnau o ddeddfwriaeth yr UE sy'n fuddiol i ni - diogelwch tegau, seddi ceir, trawsrwydweithio ffonau symudol, yswiriant iechyd.
- Addysg yw'r allwedd i helpu pobl ifanc a dylai fod gan fudwyr hawl i addysg ynghyd â chymorth ieithyddol. Mae yna negeseuon cymysg ynghylch mudo - Llywodraeth Cymru yn croesawu mudwyr ond negeseuon gwahanol yn y cyfryngau a rhannau gwahanol o Gymru. Does dim sgwrs wedi bod gan y rheini a bleidleisiodd i adael/aros i ddeall rhesymau y tu ôl i bleidleisiau.

Cyllid yr UE, gan ganolbwyntio ar y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi a ffynonellau eraill e.e. Erasmus, Horizon 2020

- Mae Llywodraeth y DU wedi gwarantu cyllid presennol (Cronfeydd Strwythurol, Horizon 2020, Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd) ar gyfer yr holl brosiectau a gytunir cyn yr adeg pan fo'r DU yn gadael yr UE, hyd yn oed pan fo'r cyllid yn parhau y tu hwnt i'r pwynt gadael.
- Does dim sicrwydd beth fydd yn digwydd ar ôl i'r rhaglen bresennol ddod i ben, a'r ffordd y bydd yr arian yn cael ei ddosbarthu. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wrthi'n gweithio gan dybio y bydd yna rywbeth yn dod yn lle'r trefniadau presennol ond does dim syniad beth fydd hynny na sut y bydd yn cael ei weinyddu.
- I helpu i gynllunio ar gyfer beth allai ddod nesaf mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn ystyried pa agweddau ar y rhaglenni presennol sy'n werth eu cadw, gan ganolbwyntio ar ystyried *sut* y dylid dosbarthu'r arian yn hytrach na *beth* y dylid gwario'r arian arno. Dyma'r cwestiynau sy'n cael eu hystyried:

- A ddylai cyllid yn y dyfodol fod ar sail rhaglenni gosodedig fel y mae'r rowndiau presennol?
- Mae'r arian ar hyn o bryd yn cael ei ddsbarthu o fewn rhanbarthau penodol yng Nghymru e.e. Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru; a ddylid cadw'r rhain ynteu edrych ar Gymru fel un?
- A ddylid seilio'r cyllid ar angen neu gyfle?
- Mae trefniadau cyllido presennol yr UE yn cynnig buddion o ran hyd trefniadau cyllido. Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru yn dueddol o fod yn flynyddol tra mae cyllid gan yr UE dros gyfnodau hwy. Pe bai cyllid yn cael ei ranbartholi yn fwy gellid ei gysylltu â threfniadau tebyg i'r cytundebau dinas (20 mlynedd o gyllid gan ei adolygu bob 5 mlynedd i sicrhau ei fod yn effeithiol).
- Yn anecdotaidd mae yna deimlad y bydd mynediad at Erasmus+ yn parhau ond does dim sicrwydd.
- Ystyriwyd bod gweithio ar draws ffiniau yn allweddol i sicrhau'r effaith fwyaf posib yn y dyfodol a rhaid cadw hyn pan fo'n bosib drwy raglenni fel y rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd presennol, gan gynnwys rhaglen drawsffiniol Iwerddon Cymru.
- Mae cymryd rhan mewn rhwydweithiau yn yr UE yn allweddol ac mae'n bosib y bydd hi dal yn bosib cymryd rhan mewn rhai rhwydweithiau hyd yn oed pan nad ydym yn aelod-wladwriaeth. Er enghraifft, sefydlwyd Euro child i beidio â bod yn benodol i aelod-wladwriaethau.
- I barhau i gymryd rhan mae adnodd cyfranogi yn allweddol a dylid ystyried hyn. Rhoddwyd enghraifft mewn perthynas â chyflwyno'r Comisiynydd Plant yng Nghymru. Daeth hyn yn sgil darn o waith ynglŷn â chydweithredu trawswladol a rhannu arfer gorau. Teimlwyd na fyddai'r comisiynydd wedi cael ei sefydlu yng Nghymru heb y cydweithredu yma.
- Teimlwyd y dylai unrhyw gyllid yn y dyfodol ganolbwyntio'n benodol ar werthuso gyda'r potensial i drosglwyddo arfer da i'r brif ffrwd.

Gwasanaethau cyhoeddus

- Yr hyn a ddaw yn lle cyllid yr UE a phryder na fyddai dychwelyd cyllid i'r trydydd sector yn flaenoriaeth, ac y gallai fod yn anos i fudiadau llai gael at y cyllid.
- Gallai fod mwy o gystadleuaeth am gyllid ar ôl Brexit - straen ar gronfeydd ariannol.
- Mae angen i'r trydydd sector gefnogi a grymuso Llywodraeth Cymru yn y broses bontio.
- Y potensial i gollu'r berthynas sydd gennym ag Ewrop (nid yr UE).
- Pryderon ynghylch aelodaeth yn y dyfodol o Rwydweithiau Ewropeaidd - a oes raid bod yn Aelod-wladwriaeth i fod yn rhan o rai o'r rhwydweithiau hyn? A all mudiadau yn y DU fod yn aelodau cyswllt? Os felly, pa rwydweithiau? Nid yw hyn yn glir ar hyn o bryd ac mae'n destun pryder i'r grŵp.
- Mae grwpiau trydydd sector wedi ymgolli yn y 12 mis nesaf, ac yn pryderu am y 12 mis nesaf, ac felly'n methu â rhagweld at 2020.
- Bydd 20% o gynnydd ar fewnforio/allforio cymhorthion a chyfarpar yn drychinebus i bobl sydd wedi colli eu golwg neu â nam ar eu golwg.
- Y Gwasanaeth Iechyd - cynyddu cost cyfarpar meddygol/diagnostig.
- Bydd yna effaith ar gyfraith defnyddwyr. Bydd yna fwy fyth o straen ar CAB.
- Bydd safonau o ansawdd is yn ymddangos fel yr opsiwn gorau oherwydd tariffau mewnforio/allfforio uwch - niweidiol i gyfarpar meddygol.

- Pobl ifanc - agosrwydd daearyddol at wledydd yr UE - pryderon ynghylch beth fydd Cymru yn ei gyflwyno i gymryd lle buddion rhyddid pobl i symud.
- Wrth wynebu adfyd mae yna gynnydd mewn 'ysbryd Prydeinig' - mae cipio'r egni hwnnw mewn ffordd bositif yn gyfle.
- Ni ddylid canolbwyntio ar fudo sy'n gysylltiedig â swyddi a chyflogadwyedd yn unig - bywyd, addysg, teulu - rydym ni gyd yn fodau dynol a dylid trin pawb felly.
- Byddai'n cael effaith enfawr ar amaethyddiaeth - y gadwyn fwyd. Symudiad pobl a'r effaith ar fudo ymysg ffermwyr, casglwyr, labrwyr.
- Twristiaeth yng Nghymru. Mae gan Gymru sawl traeth bendigedig diolch i safonau amgylcheddol yr UE.
- Bydd yn anos rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar waith pe bai safonau amgylcheddol yn cael eu gollwng.
- Ansicrwydd yw'r cyfle i ailuno.
- Radical - ysgrifennu ein deddfwriaeth ein hunain, dim mwy o gaffael (potensial i drin y 3^{ydd} sector yn wahanol).
- Cyfle i ailflaenoriaethu cyllid.